
Enw ____________________



DARLLENWCH
Genesis 27: 1-29



ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 27: 20

*Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.*

# Stori 2 Jacob yn twyllo'i dad




Pan oedd Isaac yn hen, aeth yn ddall. Roedd yn dymuno bendithio ei hoff fab, Esau, cyn iddo farw. Roedd am fwynhau pryd o fwyd yr oedd Esau wedi'i baratoi hefyd.
"Cer i hela anifail gwyllt," meddai Isaac wrth Esau "a'i goginio i mi ac wedyn fe wnaf i dy fendithio di."
Aeth Esau i hela â bwa saeth.

## C Lliwiwch y llun.

Roedd Rebeca'n gwrando! Roedd arni hi eisiau i'w hoff fab hi, Jacob, i gael y fendith. Dywedodd wrth Jacob am ladd dwy afr a byddai hi'n gwneud bwyd i Jacob ei roi i Isaac. Meddyliodd Jacob am broblem.
"Os bydd Dad yn cyffwrdd â mi." meddai, "bydd yn gwybod nad Esau ydw i. Mae fy nghroen i'n llyfn ond mae croen Esau'n flewog."
"Gwna fel dw i'n ei ddweud!" meddai Rebeca. Gwnaeth Jacob hynny. Roedden nhw'n mynd i dwyllo Isaac.

## C Ysgrifennwch yr atebion yn y Grid Geiriau.

**1. Beth oedd enw gwraig Isaac?**
**2. Pwy oedd ei hoff fab hi?**
**3. Dywedodd Isaac wrth hwn am fynd i hela.**
**4. Roedd yn defnyddio hwn i hela.**
**5. Lladdodd Jacob ddwy _ _ _.**




Pan oedd y bwyd yn barod, rhoddodd Rebeca grwyn y geifr dros wddf a dwylo Jacob. Gwisgodd Jacob ddillad Esau a mynd â'r bwyd i Isaac! "Pa fab wyt ti?" gofynnodd Isaac. "Esau ydw i," meddai Jacob.

**C Pa gelwydd ddywedodd Jacob wrth ei dad? Llanwch y bylchau.** 3

Dywedodd "__ __ __ __   __ __ __   __"

**C Sut wnaeth Jacob dwyllo'i dad oedd yn ddall? Llanwch y bylchau.** 2

Gwisgodd dd __ __ __ __   E __ __ __.

Roedd Isaac yn amheus gan ei fod yn meddwl ei fod yn nabod llais Jacob, ond pan gyffyrddodd ag ef, roedd yn meddwl mai Esau oedd yno.



- Roedd wedi'i wisgo fel Esau.
- Roedd yn teimlo fel Esau.
- Roedd aroglau dillad Esau ar ddillad Jacob.

**Ond pwy oedd ef?**

**C Lliwich y sgwariau sydd â smotyn ynddyn nhw i gael gwybod.** 5

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ● | ● | ● | | | ● | | | | ● | | | | ● | | | ● | ● | |
| | ● | | | ● | | ● | | ● | | ● | | ● | | ● | | ● | | ● |
| | ● | | | ● | ● | ● | | ● | | | | ● | | ● | | ● | ● | |
| | ● | | | ● | | ● | | ● | | ● | | ● | | ● | | ● | | ● |
| ● | ● | | | ● | | ● | | | ● | | | | ● | | | ● | ● | |

Bendithiodd Isaac Jacob. Pan ddeallodd Esau ac Isaac beth oedd wedi digwydd, roedden nhw'n drist ac yn ddig. Pan fyddwn ni'n gwneud rhywbeth o'i le, fel twyllo a dweud celwydd, rydyn ni'n gwneud pobl eraill yn drist, ond yn bwysicach na hynny, rydyn ni'n gwneud Duw yn drist.



cyfanswm